# Cyngor Cymuned **Ceulanamaesmawr** Community Council

**Cofnodion y cyfarfod misol a gynhaliwyd**
**nos Lun 23 Chwefror 2026 am 7.30 p.m. yn Neuadd Goffa Tal-y-bont**

1. **Croeso'r Cadeirydd**

   **Yn bresennol:** Y Cynghorwyr Ellen ap Gwynn (Cadeirydd), Siôn Pennant Jones, Elgan Evans, Bleddyn Huws, Enoc Jenkins (Is-gadeirydd), Nest Jenkins, Catrin Davies (Cyng. Sir), Nia Richards ac Eryl Bray, a'r Cyng. Mererid Watson a Rhian Evans (o bell)

   **Yn cofnodi:** Lynwen Rees Jones

   Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb.

2. **Ymddiheuriadau**

   Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

3. **Datgan Buddiant Personol**

   Ni ddatganwyd unrhyw fuddiant personol.

4. **Cofnodion y Cyfarfod diwethaf**

   i) Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf, a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2026, yn gywir, yn amodol ar y diwygiad canlynol: **8.iii)** newid '*penderfynwyd cynnal ymgynghoriad'* i '*trafodwyd cynnal ymgynghoriad'.*
   Cynnig: Catrin Davies; Eilio: Bleddyn Huws
   Estynnodd y Clerc ddiolch i'r Cyng Siôn Pennant am osod y gliniadur newydd yn barod i'w ddefnyddio, ac ategwyd hyn gan y Cadeirydd.

   ii) Cadarnhawyd bod cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Fynwent, a gynhaliwyd ar 4 Chwefror 2026, yn gywir. Rhoddodd y Cadeirydd grynodeb o'r cyfarfod fel a ganlyn:

   a) Argymhellwyd cynyddu holl ffioedd y fynwent £10 yn sgil costau cynyddol, a chynnig llain maint llawn ar gyfer claddu llwch yn hytrach nag un 3x3 troedfedd.

   b) Byddai angen atgyweirio'r ffens ar hyd y ffordd fawr, ac roedd tri enw wedi'u cynnig ar gyfer dyfynbrisiau pan ddeuai'n amser.

   c) Mynwent Nazareth:

   - Roedd dogfennau wedi dod oddi wrth y cyfreithiwr. Doedd dim map manwl i ddangos y ffiniau; doedd dim sôn am y £10,000 a addawyd gan yr Eglwys Bresbyteraidd; doedd dim cyfeiriad at bwy fyddai'n talu'r costau cyfreithiol. Nodwyd bod yna swm sylweddol yng nghronfa capel Nazareth, ac awgrymwyd y gellid gofyn am gyfran o hwn ar gyfer gwaith cynnal a chadw. Roedd y Clerc wedi gohebu â'r cyfreithiwr ynglŷn â'r uchod.
   - Byddai'n rhaid ychwanegu'r fynwent at yr yswiriant ac at y contract cynnal a chadw maes o law.

   Penderfynwyd derbyn argymhellion y Pwyllgor ynghylch diweddaru'r ffioedd.
   Cynnig: Catrin Davies; Eilio: Elgan Evans.
   Penderfynwyd gadael y ffens hyd nes y byddai rhagor o arian ar gael. Holwyd a fyddai grant y Cyngor Sir ar gyfer gwaith mewn mynwentydd ar gael ar gyfer mynwentydd y Tabernacl a Nazareth hefyd – y Clerc i wneud ymholiadau.

5. **Materion yn codi:**

   i) Materion a adroddwyd trwy Clic i'r Cyngor Sir:

   a) Roedd y tyllau ger Cwmere wedi cael eu trwsio;

   b) Penderfynwyd ailgyflwyno'r gŵyn am y ffordd ger Glanrafon, gyda lluniau.

Roedd y Cyng. Nest Jenkins wedi siarad ag Arfon Jones, Rali Ceredigion, a oedd wedi nodi cyflwr y ffordd ger Glanrafon. Cynhelir y rali ar 5 a 6 Medi, gyda'r ceir yn rasio o Bont-goch i Bonterwyd, gan gynnwys heibio i fynedfa Glanrafon. Penderfynwyd gofyn am fap manwl o lwybr y rali. Penderfynwyd hefyd fynegi pryder i'r Cyngor Sir ynghylch cyflwr y ffyrdd gan nodi nad yw rhai darnau o'r llwybr yn ddiogel.

**6. Adran 6 – Bioamrywiaeth**

Roedd y Cynghorwyr Nia Richards ac Eryl Bray am baratoi darn ar gyfer adran bioamrywiaeth y cais am grant y Loteri. Byddai yna gynnydd o 10% yn y fioamrywiaeth yn y Cae Bach yn dilyn plannu sietyn ac ardaloedd o flodau gwyllt. Roedd plant yr ysgol wedi gofyn am gael blychau nythu yn y Cae Bach hefyd. Nodwyd bod rhywrai wedi bod yn ceisio gwaredu'r clymog Japan, heb awdurdod.

**7. Gohebiaeth**

Roedd y Clerc wedi anfon pob gohebiaeth electronig berthnasol ymlaen at y Cynghorwyr yn ystod y mis. Nodwyd y canlynol yn benodol:

i) Cronfa Eleri – yn cynnig grant o £4,000 i gronfa Cae Bach.
ii) Hywel Dda – ymgynghoriad ar wasanaethau fferyllol y sir. Anogwyd y Cynghorwyr i ymateb i'r ymgynghoriad.

**8. Materion ariannol:**

i) Adroddiad ariannol: roedd y Clerc wedi dosbarthu manylion sefyllfa ariannol y Cyngor ymlaen llaw. Roedd y sefyllfa ar 16-02-2026 fel a ganlyn:

| | |
|---|---:|
| Y cyfrif cyfredol | £1,341 |
| Y cyfrif cadw | £78.59 |
| Cyfrif y Tabernacl | £4,638.80 |
| Cyfrif Cae Bach | £32,842.56 |
| Arian mân | £78.20 |
| Cyfanswm | **£38,979.77** |

Roedd £39,920.76 yng nghronfa Cae Bach, gyda £7,000 o hwn wedi cael ei drosglwyddo dros dro i brif gyfrif y Cyngor. At hynny, roedd yna £1,449.65 yng nghronfa Cwtsh Cynnes. Roedd hyn yn golygu bod yna ddiffyg o £2,390.64 yng nghronfga'r Cyngor. Amcangyfrifwyd y byddai yna wariant pellach o tua £3,470 cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Ni fydda'r ad-daliad TAW (£962) na grant y fynwent (£6,805) yn dod i law tan fis Ebrill, ond byddai'r taliadau hyn yn sicrhau gwarged o dros £1,900.

ii) Incwm ers y cyfarfod diwethaf:
Cronfa Cae Bach (rhoddion a'r Prynhawn Gemau) – £688.85

iii) Anfonebau i'w talu:
a) Pugh Computers, trwydded Microsoft – £138.24
b) Ellen ap Gwynn, costau Cwtsh Cynnes – £7.29
c) Nia Richards, costau Cwtsh Cynnes – £9.37

Penderfynwyd yn unfrydol gymeradwyo'r holl daliadau uchod.

**9. Y Fynwent**

Trafodwyd materion y fynwent o dan bwynt **4.ii)** uchod.

**10. Y Caeau Chwarae**

i) Ymgyrch Cae Bach:
a) Cynhaliwyd prynhawn gemau a chili ar 21 Chwefror, a chodwyd £531.58. Byddai Sêl Pen

Bwrdd yn cael ei gynnal ar 28 Mawrth am gost o £10 y bwrdd; byddai lluniaeth ar gael hefyd. Roedd 5 bwrdd wedi'u neilltuo'n barod.

b) Roedd Gerwyn Jones yn bwriadu lansio ei ymgyrch Cerdded Cymru ar 1 Mawrth. Ei fwriad oedd ymgymryd â 10 her dros y flwyddyn nesaf, gyda chyfran o'r arian y byddai'n ei godi yn mynd i gronfa Cae Bach. Roedd yn bwriadu cerdded 53 gwaith o amgylch Tal-y-bont mewn 24 awr ym mis Medi i nodi pen-blwydd y Cae Bach yn 53. Byddai croeso i bobl leol gerdded gydag ef am gyfnodau penodol.

c) Penderfynwyd galw cyfarfod o'r Pwyllgor ar 4 Mawrth.

ii) Adroddiadau misol:
- Bont-goch: y gwaith heb ei orffen o hyd. Cynigiodd y Cyng. Siôn Pennant gysylltu'n uniongyrchol â John Henry Jones i ddangos beth yn union oedd angen ei wneud.
- Cae Bach: archwiliad i'w gynnal cyn diwedd yr wythnos, ynghyd â symud y bin halen.

**11. Unrhyw Fater Arall**

i) Ffordd Pen-cwm mewn cyflwr gwael.

ii) Holwyd ble yn union fyddai'r gwefrwyr yn cael eu gosod yng ngwaelod Tal-y-bont. Nodwyd na fyddai gan y Cyngor Sir hawl i dyllu ar y Patshyn Glas ei hun, a phe byddenyt yn cael eu lleoli gyferbyn â Mur Mawr byddai'r ffordd yn gul iawn. Penderfynwyd gofyn i'r Cyngor Sir am gael gweld cynllun, a chynnig y gellid gosod y gwefrwyr gyferbyn â'r ddwy dafarn.

iii) Byddai'r ffyrdd canlynol ynghau ar gyfer gwaith ailwynebu: Erglodd i Dre Taliesin, 2-13 Mawrth; Y Lolfa at y Golden Key, 16-20 Mawrth.

iv) Y ffordd rhwng Pensarn a Gwarcwm Uchaf mewn cyflwr gwael. Roedd y ffordd ar y naill ochr a'r llall wedi cael wyneb ond y darn hwn wedi cael ei adael allan. Y clerc i holi pam.

v) Roedd yr arwyddion 'Dim Cŵn' wedi diflannu oddi ar y Patshyn Glas ac roedd pobl yn mynd â'u cŵn yno'n rheiolaidd. Cynigiwyd prynu arwyddion mwy parhaol i'w gosod yno.

vi) Nodwyd bod angen i fap o'r fynwent fod ar gael ar y wefan.

**12. Enillwyr y Clwb 200**

Defnyddiwyd ap cynhyrchu haprifau i ddewis enillwyr mis Ionawr fel a ganlyn:
1$^{af}$ – 79, Sam Pace (£50); 2$^{il}$ – 73, Menna Morgan (£20); 3$^{edd}$ – 16, Nikki Myring-Thomas (£10)
Cymeradwywyd talu'r gwobrau o arian mân Cae Bach.

**13. Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Cynhelir y cyfarfod nesaf am 7.30 p.m. ar 30 Mawrth 2026 yn Neuadd Goffa Tal-y-bont.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.30 p.m.